

CYNGOR GWYNEDD

DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014

GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021

Mae Cyngor Gwynedd (“y Cyngor”), drwy arfer y grym a roddwyd iddo gan adran 59 o’r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 (“y Ddeddf”), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Enw’r Gorchymyn hwn yw y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Rheoli Cŵn) 2021.
2. Daw y Gorchymyn hwn i rym ar [XXXX] a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd tan [XXXX] oni bai y caiff yn y cyfamser ei ddiwyo, ei ddiwygio, neu ei ymestyn gan Orchymyn pellach yn unol â grymoedd statudol y Cyngor.

Gwahardd cŵn

3. Mae erthygl 4 yn gymwys i’r tir a bennir yn Atodlen 1.
4. (1) Yn ystod yr amserau a bennir yn Atodlen 2, gwaherddir person sydd â chyfrifoldeb dros gi rhag mynd â’r ci hwnnw ar unrhyw dir y mae’r erthygl hon yn gymwys iddo, neu rhag caniatáu i’r ci fynd ar neu aros ar y tir hwnnw, oni bai –
 - (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu
 - (b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i’r person hwnnw wneud hynny.
- (2) Nid oes unrhywbeth yn yr erthygl hon yn gymwys i berson –
 - (a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
 - (b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac y mae’r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu
 - (c) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae’r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig" –

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestrdig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestrdig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestrdig rhif 803680).

Baeddu tir gan gŵn

5. Mae erthygl 6 yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 3.

6. (1) Os yw person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn achosi neu yn gadael i'r ci hwnnw fawa ar unrhyw adeg ar dir y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, bydd gofyn i'r person hwnnw symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, oni bai –

(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) Nid oes unrhywbeth yn yr erthygl hon yn gymwys i berson –

(a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd a ddarperir ar y tir at y diben hwnnw, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn symud ymaith digonol oddi ar y tir;

(c) ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd peidio â bod yn y cyffiniau ai peidio), na bod heb declyn i symud y baw ci ymaith neu ddull arall addas o wneud hynny yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci ymaith;

(d) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig" –

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestrdig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestrdig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestrdig rhif 803680).

Cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd

7. Mae erthygl 8 yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 3.

8. (1) Ar bob adeg ac ar dir y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, bydd gofyn i berson sydd â chyfrifoldeb dros gi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan berson awdurdodedig i roi a chadw'r ci ar dennyn nad yw yn hwy na 2 o fetrau, oni bai –

(a) bod gan y person hwnnw esglus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) ni chaiff person awdurdodedig roi cyfarwyddyd dan yr erthygl hon i roi ci ar dennyn a'i gadw arno oni fo'r cyfryw lyffethair yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sydd yn debygol o beri aflonyddwch i unrhyw berson arall neu o darfu arno ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo neu beri trafferth i unrhyw anifail neu unrhyw aderyn neu o aflonyddu arnynt.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau o dan yr erthygl hon.

Cosb

9. Bydd person sydd yn gwneud unrhywbeth y gwaherddir ef rhag ei wneud gan y Gorchymyn hwn, neu yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad oddi tano, yn euog o drosedd o dan adran 67 o'r Ddeddf ac yn agored, o'i gollfarnu yn ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Herio'r Gorchymyn

10. Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, gall unrhyw berson â diddordeb sydd yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu bod diffyg cydymffurfiad â gofyniad o'r Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

DRAFT

GWYNEDD COUNCIL

ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014

GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021

Gwynedd Council (“the Council”), in exercise of the powers conferred upon it by section 59 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 (“the Act”), makes the following Order:

1. The name of this Order is the Gwynedd Council (Dog Control) Public Spaces Protection Order 2021.
2. This Order comes into force on [XXXX] and shall remain in force for a period of 3 years until [XXXX] unless in the meantime it is revoked, amended or extended by further Order in accordance with the Council’s statutory powers.

Dogs exclusion

3. Article 4 applies to the land specified in Schedule 1.
4. (1) During the times specified in Schedule 2, a person in charge of a dog shall be prohibited from taking that dog on to land to which this article applies, or from allowing the dog to enter or to remain on that land, unless –
 - (a) that person has a reasonable excuse for doing so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person doing so.
- (2) Nothing in this article applies to a person who –
 - (a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or
 - (b) is deaf, in respect of a dog trained by Hearing Dogs for Deaf People (registered charity number 293358) and upon which that person relies for assistance; or
 - (c) has a disability which affects that person’s mobility, manual dexterity, physical coordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.
- (3) For the purposes of this article –
 - (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;

(b) each of the following is a “prescribed charity” –

(i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);

(ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Fouling of land by dogs

5. Article 6 applies to the land specified in Schedule 3.

6. (1) If a person who is in charge of a dog causes or allows that dog to defecate at any time on land to which this article applies, that person shall remove the faeces from the land forthwith, unless —

(a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or

(b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.

(2) Nothing in this article applies to a person who –

(a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or

(b) has a disability which affects that person’s mobility, manual dexterity, physical coordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.

(3) For the purposes of this article –

(a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;

(b) placing the faeces in a receptacle on the land which is provided for the purpose, or for the disposal of waste, shall be a sufficient removal from the land;

(c) being unaware of the defecation (whether by reason of not being in the vicinity or otherwise), or not having a device for or other suitable means of removing the faeces shall not be a reasonable excuse for failing to remove the faeces;

(d) each of the following is a “prescribed charity” –

(i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);

(ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Dogs on lead by direction

7. Article 8 applies to the land specified in Schedule 3.
8. (1) At all times and on land to which this article applies, a person in charge of a dog shall be required to comply with any direction given by an authorised person to put and keep the dog on a lead of not more than 2 metres in length, unless –
 - (a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.
- (2) For the purposes of this article –
 - (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;
 - (b) an authorised person may only give a direction under this article to put and keep a dog on a lead if such restraint is reasonably necessary to prevent a nuisance or behaviour by the dog likely to cause annoyance or disturbance to any other person on any land to which this article applies or the worrying or disturbance of any animal or bird.
- (3) In this article an “authorised person” means a person who is authorised in writing by the Council for the purpose of giving directions under this article.

Penalty

9. A person who does anything that he is prohibited from doing by this Order, or fails to comply with any requirement therein, shall be guilty of an offence under section 67 of the Act and shall be liable, upon summary conviction, to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Challenging the Order

10. In accordance with section 66 of the Act, any interested person who wishes to challenge the validity of this Order on the grounds that the Council did not have the power to make the Order or that a requirement under the Act has not been complied with may apply to the High Court within 6 weeks from the date upon which the Order is made.

Llofnodwyd y diwrnod o 2021
Signed the day of 2021

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD)
AR HWN YM MHRESENOLDEB)
)
THE COMMON SEAL OF GWYNEDD COUNCIL)
WAS HEREUNTO FIXED IN THE PRESENCE OF)
)



Llofnodydd awdurdodedig
Authorised signatory

DRAFT

ATODLENNI

ATODLEN 1

Tir a bennir yn Atodlen 1:

1. Yr holl dir a ddisgrifir yn yr Atodlen ganlynol sydd yn dir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor –
 - (i) sydd yn agored i'r awyr (sydd yn cynnwys unrhyw dir dan do os yw yn agored i'r awyr ar o leiaf un ochr); ac
 - (ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad); ac
 - (iii) sydd wedi ei arwyddo wrth ei fynedfa/mynedfeydd fel "Ardal Eithrio Cŵn" (os yw'r arwydd yn defnyddio'r geiriau penodol hynny neu eiriau ac/neu symbolau gyda'r un effaith).
2. Pob lle chwarae plant.
3. Pob tir hamdden o fewn ffiniau ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.
4. Pob maes chwarae wedi ei marcio ble mae gan y cyhoedd ganiatâd neu hawl mynediad a thir o fewn 2 fetr i'r chwaraefa.
5. Yr holl gyfleusterau chwaraeon yn y sir, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) canolfannau hamdden, parciau pêl aml-ddefnydd, cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, traciau seiclo a rhedeg, cyrtiau pêl-rwyd a phêl-fasged a pharciau sglefrio.
6. Yr holl draethau gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sydd yn arwain at y traethau yn y lleoliadau a nodir isod ac a amlinellir yn fanylach mewn coch yn y cynlluniau perthnasol atodedig:

Lleoliad

Cyfeirnod

Aberdyfi

6.01

Tywyn

6.02

Y Friog

6.03

Abermaw

6.04

Bennar	6.05
Llandanwg	6.06
Harlech	6.07
Morfa Bychan – Traeth y Greigddu	6.08
Criccieth – Traeth y Promenâd	6.09
[Heb ei ddefnyddio]	6.10
Pwllheli – Glan Don	6.11
Pwllheli – Marian-y-De	6.12
Abersoch	6.13
Aberdaron	6.14
Porth Oer	6.15
Porth Towyn	6.16
Morfa Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18
Nefyn	6.19

ATODLEN 2

Amseroedd a bennir yn Atodlen 2:

Paragraffau 1 i 5 o Atodlen 1: Bob amser.

Paragraff 6 o Atodlen 1: Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, gan gynnwys y dyddiadau hynny, mewn unrhyw flwyddyn.

ATODLEN 3

Tir a bennir yn Atodlen 3:

Yr holl dir sydd wedi ei ddisgrifio yn yr Atodlen ganlynol sydd yn dir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor –

- (i) sydd yn agored i'r awyr (sydd yn cynnwys unrhyw dir dan do os yw'n agored i'r awyr ar o leiaf un ochr) ac
- (ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad).

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Land specified in Schedule 1:

1. All land described in the following Schedule being land which lies within the administrative area of the Council –
 - (i) which is open to the air (which includes any land which is covered if it is open to the air on at least one side); and
 - (ii) to which the public are entitled or permitted to have access (with or without payment); and
 - (iii) which is signed at its entrance(s) as a “Dog Exclusion Area” (whether the sign uses those particular words or words and/or symbols having like effect).
2. All children’s play areas.
3. All recreational land within the boundaries of schools, further and higher education establishments.
4. All marked sports pitches to which the public are permitted or entitled to have access and land within 2 metres of the pitches.
5. All sports facilities in the county, including (but not limited to) leisure centres, multi-purpose ball parks, tennis courts, bowling greens, cycling and running tracks, netball and basketball courts and skate parks.
6. All beaches including the seashore, foreshore and any slope or staircase leading onto the beaches at the locations noted below and more particularly delineated in red on the relevant attached plans:

<u>Location</u>	<u>Reference</u>
Aberdyfi	6.01
Tywyn	6.02
Fairbourne	6.03

Barmouth	6.04
Bennar	6.05
Llandanwg	6.06
Harlech	6.07
Morfa Bychan – Black Rock Sands	6.08
Criccieth – Promenade Beach	6.09
[Not used]	6.10
Pwllheli – Glan Don	6.11
Pwllheli – Marian-y-De	6.12
Abersoch	6.13
Aberdaron	6.14
Porth Oer	6.15
Porth Towyn	6.16
Morfa Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18
Nefyn	6.19

SCHEDULE 2

Times specified in Schedule 2:

Paragraphs 1 to 5 of Schedule 1: All times.

Paragraph 6 of Schedule 1: Between 1 April and 30 September inclusive in any year.

SCHEDULE 3

Land specified in Schedule 3:

All land described in the following Schedule being land which lies within the administrative area of the Council –

- (i) which is open to the air (which includes any land which is covered if it is open to the air on at least one side) and
- (ii) to which the public are entitled or permitted to have access (with or without payment).

DYDDIEDIG / DATED:

2021

DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014
GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021

ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014
GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021

DRAFT

IWAN G D EVANS

PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL / HEAD OF LEGAL SERVICES

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

STRYD Y JÊL

CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1SH

CYFEIRNOD / REFERENCE: PBR-477 GE1